

CHWARAEON, ADLONANT  
A HAMDDEN AR HYD

# LLWYBR RHYMNI

Bydd y map hwn yn eich helpu i ddod o hyd i gyfleusterau chwaraeon, adloniant a hamdden sydd ar gael ar hyd Llwybr Rhymni. O Warchodfa Natur Howardian i goetiroedd prydferth Cefn Mabli, mae rhywbeth i bawb ei fwynhau ar hyd Llwybr Rhymni Caerdydd. **Cliciwch ar yr 'eiconau' i gael gwybod mwy ...**

*Am ragor o wybodaeth ynglŷn â chyfleoedd eraill i fwynhau'r ardal o gefn gwlad sydd ar garreg eich drws, cysylltwch â Thim Cefn Gwlad y Cyngor.*

**Ffôn:** 029 2087 3186 / 73719 / 73249


**E-bost:** [cefngwlad@caerdydd.gov.uk](mailto:cefngwlad@caerdydd.gov.uk)

**Gwefannau:** [www.caerdydd.gov.uk/cefngwlad](http://www.caerdydd.gov.uk/cefngwlad)

[www.caerdydd.gov.uk/bioamrywiaeth](http://www.caerdydd.gov.uk/bioamrywiaeth)

[www.awyragoredcaerdydd.com](http://www.awyragoredcaerdydd.com)

Dim Delweddau  
Map



## ALLWEDD

- Llwybr Rhymni
- Llwybr arfaethedig
- Parc Fferm Cefn Mabli
- Coedwig Cefn Mabli
- Canolfan Golf Caerdydd
- Tafarn Unicorn Inn
- Coedwig Fishpond Pentwyn
- Clwb Rygbi Tredelerch
- Canolfan Hamdden Pentwyn
- Parc Coed y Nant
- Gerddi Rumney Hill
- Gwarchodfa Natur Leol Howardian
- Gerddi Catherine
- Parc Tredelerch
- Llwybr Arfordir Cymru

Llanedern

Llanrhymni

Tredelerch

Tremorfa



# Llwybr Rhymni

Yn y blynyddoedd diwethaf, mae Cyngor Caerdydd wedi dechrau datblygu Llwybr cerdded a beicio ochr yn ochr ag Afon Rhymni. Mae bellach yn bosib cychwyn ar y blaendraeth a dilyn y Llwybr i fyny at bentref Llanedern. Bydd gwaith yn y dyfodol yn ceisio ymestyn y Llwybr i gefn gwlad y tu hwnt.

Mae'r Llwybr oddi ar y ffordd yn bennaf, er bod rhai adrannau'n rhannu lle ar y ffyrdd. Mae'n pasio drwy sawl ardal ddeniadol. Yn wir, mae'r amrywiaeth yn eithaf trawiadol, gan gynnwys yr arfordir, gwelyau cyrs, llyn, cors, coetiroedd a phrysgwydd. Mae'n cael ei ddefnyddio fel Llwybr cymudo yn ogystal ag at ddibenion hamdden. Wrth i fwy o bobl ddod yn ymwybodol o'r Llwybr, mae wedi dod yn fwy poblogaidd.

Os gellir barnu gan lwyddiant Llwybr y Taf, mae potensial mawr i'r Llwybr hwn.

Blaenord

Nesaf

Prif Fap





# Parc Fferm Cefn Mabli

Wedi'i leoli ar hyd Llwybr Rhymni i'r gogledd o Gaerdydd, mae Parc Fferm Cefn Mabli yn darparu nifer o weithgareddau dan do ac awyr agored. Mae'r cyfleusterau a'r gweithgareddau'n cynnwys ysgubor chwarae wedi'i wresogi, ardaloedd chwarae dan do ac awyr agored, teithiau merlota, cyfleoedd i anwesu rhai o'r anifeiliaid, ardaloedd cadwraeth a phwll, a siop goffi a bistro.

Blaenord

Nesaf

Prif Fap







# Coedwig Cefn Mabli

Gydag ardaloedd bach o goetir hynafol lle bu coed ers 1600, mae gan Gefn Mabli arddangosiadau ysbennydd o glychau'r gog yn ystod y gwanwyn, ynghyd ag amrywiaeth fawr o blanhigion ac adar ac infertebratau.


Yn y goedwig, mae marchogaeth a chwrs neidio. Mae'r llwybrau ceffylau pob tir hyn yn rhai â mynediad agored, ac fe'u rheolir mewn partneriaeth rhwng marchogwyr lleol a'r Comisiwn Coedwigaeth. Mae'r rhwydwaith o lwybrau coedwig yn y coetiroedd ar agor ar gyfer hamdden ac yn arbennig o boblogaidd ymhlith beicwyr a rhedwyr. Mae'r goedwig ar dir uchel uwchben dyffryn Afon Rhymini.

Blaenord

Nesaf

Prif Fap





# Canolfan Golff Caerdydd

Wedi'i leoli yng ngogledd Caerdydd, mae Canolfan Golff Caerdydd yn cynnig maes golff 30 bae â llifoleuadau, ardal taro a phytio 9 twll, hyfforddiant golff ac mae ganddi siop sy'n gwerthu'r holl offer golffio diweddaraf.

[Blaenord](#)

[Nesaf](#)

[Prif Fap](#)

# Tafarn Unicorn Inn

Wedi'i lleoli ger Eglwys Edeyrn Sant, mae rhannau o'r Unicorn Inn yn dyddio'n ôl i'r ail ganrif ar bymtheg. Y dyddiau hyn, mae'r dafarn boblogaidd hon yn gweini bwyd a diod saith niwrnod yr wythnos, ac mae ganddi ardd gwrw fawr i'w defnyddio yn ystod misoedd yr haf.

Wedi'i lleoli nepell o Lwybr Rhymini, mae'r dafarn hon yn lle delfrydol am seibiant haeddiannol.



Blaenord

Nesaf

Prif Fap

A large, leafless tree stands in a grassy field under a clear blue sky. The tree has a thick, gnarled trunk and a wide, spreading canopy of bare branches. The field is green and sloping upwards. In the background, a white building with a dark roof is visible on the left side. The sky is a uniform light blue.

# Coedwig Fishpond

Ardal o dir agored a choed yw Coedwig Fishpond yn Llanrhymni yng Nghaerdydd. Mae hi wedi'i lleoli yng nghanol ardal boblog sy'n rhoi mynediad hwylus i drigolion.

Mae'r coedwigoedd yn cynnwys coed derw, gwern a bedw, ac mae glaswelltir agored yn darparu digon o le ar gyfer gemau a gweithgareddau. Mae timau chwaraeon lleol yn defnyddio'r caeau ar gyfer eu gemau, ac mae ardal chwarae boblogaidd i blant hefyd yn yr ardal.

Mae enw'r goedwig yn deillio o flynyddoedd a fu pan oedd pyllau pysgod wedi'u hadeiladu i mewn iddi. Yn wreiddiol roeddent yn llynnoedd pysgota a phyllau padlo, fe'u llenwyd yn ystod y 1970au.

[Blaenord](#)

[Nesaf](#)

[Prif Fap](#)



# Clwb Rygbi Tredelerch

Wedi'i leoli ym Mharc Glan-yr-Afon sydd ar ochr ddwyreiniol Afon Rhymni, mae Clwb Rygbi Tredelerch yn un o brif dimau rygbi'r undeb yng Nghaerdydd a de-ddwyrain Cymru. Yn y gorffennol roeddent yn chwarae ar Dir Hamdden Tredelerch, ers ychydig wedi'r Ail Ryfel Byd, mae Parc Glan-yr-Afon wedi bod yn gartref i'r Clwb ers 1974.

Mae Clwb Rygbi Tredelerch yn cynnig amrywiaeth o lefelau rygbi gan gynnwys y XV cyntaf yn chwarae yn Is-adran Un y Dwyrain yng Nghynghrair Undeb Rygbi Cymru a rygbi cymunedol o saith oed a throsodd. Mae lluniaeth i'w gael yn y clwb ac mae llefydd parcio am ddim ar gael ar ddiwrnodau gemau. Mae'r tymor chwarae yn rhedeg o ddiwedd Awst hyd at fis Mai. I gael rhagor o fanylion ewch i [wefan](#) Clwb Rygbi Tredelerch.







# Canolfan Hamdden Pentwyn

Mae Canolfan Hamdden Pentwyn ym Mharc Coed y Nant, ac mae ganddi amrywiaeth eang o gyfleusterau a dosbarthiadau. Mae'r ganolfan hamdden yn darparu'n dda ar gyfer pobl ag anableddau, gydag offer a dosbarthiadau penodol.

Am fwy o wybodaeth, ffoniwch y ganolfan hamdden ar 029 2054 9211 neu e-bostiwch [pentwynleisurecentre@caerdydd.gov.uk](mailto:pentwynleisurecentre@caerdydd.gov.uk)

Blaenord

Nesaf

Prif Fap



# Parc Coed Y Nant

Mae Parc Coed y Nant yn darparu cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau hamdden ffurfiol ac anffurfiol i chi eu mwynhau. Mae ardal helaeth o goetir, llyn a manau agored sy'n ardderchog ar gyfer gemau anffurfiol. Mae pysgota ar y llyn yn boblogaidd iawn, yn ogystal â gweithgareddau hamdden eraill, gan gynnwys lawntiau bowlio, maes chwarae a chaeau chwaraeon.

Mae gan y parc nifer o nentydd yn llifo drwyddo hefyd, ac oherwydd ei bwysigrwydd i'r amgylchedd a bywyd gwylt, mae rhannau o'r parc wedi'u dynodi fel Safle o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur (SoBCN).




Blaenord

Nesaf

Prif Fap





# Gerddi Rumney Hill

Mae'r parc cyhoeddus hwn yn ddeniadol ac mewn cyflwr da, ac fe'i sefydlwyd yn y 1950au hwyr ar dir a ddynodwyd yn wreiddiol fel tir claddu. Mae gan y gerddi lawer o nodweddion i chi eu mwynhau, gan gynnwys: lawnt fowlio a gedwir yn dda a phafliwn; cyrtiau tenis; arddangosfeydd plannu tymhorol lliwgar; a 'Gardd Gudd'.

Dyfarnwyd y Faner Werdd fawreddog i'r parc yn 2010.

Mae Cyngor Caerdydd wrthi'n datblygu Llwybr Archwilio Bywyd Gwylt drwy Erddi Rumney Hill a fydd ar gael yn 2012.

Am daflen taith gerdded o Llwybr Archwilio Bywyn Gwylt: Gerddi Rumney Hill, cliciwch [yma](#).

Am daflen taith gerdded o Erddi Rumney Hill i Bontprennau, cliciwch [yma](#).

Blaenord

Nesaf

Prif Fap



# Gwarchodfa Natur Leol Howardian

Wedi'i lleoli yn nyffryn Rhymni ac yn cynnwys gwerddon bywyd gwyllt o goetir, dolydd blodau gwyllt, pyllau a gwelyau cyrs, ni fydddech chi fyth yn gwybod bod y warchodfa'n domen sbwriel yn y 1970au. Ers hynny, mae'r cyngor wedi gweithio â grwpiau lleol i greu'r hafan bywyd gwyllt y gellir ei mwynhau heddiw. Mae Cyfeillion Howardian yn helpu'r cyngor gyda gwelliant parhaus a rheoli'r warchodfa trwy greu lle i fywyd gwyllt a thrigolion Caerdydd ei fwynhau.

Mae rhwydweithiau o lwybrau bellach rhwng yr amrywiaeth eang o gynefinoedd sy'n cynnwys pyllau, dolydd, coetir, yn ogystal â nant a rhaeadr. Mae dros 500 o rywogaethau unigol wedi cael eu cofnodi yn y cynefinoedd hyn ar y safle, ac i gydnabod y gwerth hwn i fywyd gwyllt, fe'i dynodwyd yn Warchodfa Natur Leol yn 1981.

Blaenord

Nesaf

Prif Fap







# Gerddi Catherine

Wedi'i leoli yn agos at Lwybr Rhymini, mae Gerddi Catherine yn cynnig llawer o fannau agored yn ogystal ag ardal chwarae i blant.

Am daflen daith gerdded o Gaeau Chwarae'r Ffordd Newydd i Barc Tredelerch, cliciwch [yma](#).

Blaenord

Nesaf

Prif Fap



# Parc Tredelerch

Datblygwyd yn ddiweddar yn ardal Tredelerch gyda phwyslais ar gadwraeth a bywyd gwylt, ac ni fydech chi fyth yn dyfalu bod Parc Tredelerch unwaith wedi'i thrwyddedu ar gyfer gollwng sbwriel. Fe'i agorwyd a'i enwyd yn swyddogol ym mis Mawrth 2003, ac mae llyn 4 hectar yn ganolbwynt i'r parc, ac wedi'i amgylchynu gan 2 gilomedr o lwybr troed. Mae llwybr pren hir yn rhedeg ar draws y llyn sy'n cynnwys sawl rhywogaeth o bysgod bras, ac mae byrddau picnic ar gael ger y maes parcio.

Am daflen daith gerdded o Gaeau Chwarae'r Ffordd Newydd i Barc Tredelerch, cliciwch [yma](#).

Blaenord

Nesaf

Prif Fap







# Llwybr Arfordir Cymru

Mae Llwybr Arfordir Cymru yn cael ei ddatblygu i greu llwybr parhaus am 870 milltir/1,400km o amgylch arfordir Cymru, ac mae'n cynnwys Sir y Fflint, Sir Ddinbych, Conwy, Ynys Môn, Gwynedd, Powys, Ceredigion, Sir Benfro, Sir Gâr, Abertawe, Castell-nedd Port Talbot, Penybont ar Ogwr, Bro Morgannwg, Caerdydd, Casnewydd a Sir Fynwy.

Mae Llywodraeth Cymru'n ymroddedig i ariannu gwaith gwella ar Llwybr Arfordir Cymru drwy grant, ac mae wedi buddsoddi mewn creu llwybr a gwelliannau mewn partneriaeth â Chyngor Cefn Gwlad Cymru a'r 16 Awdurdod Lleol. Er y bydd ar gyfer cerddwyr yn bennaf, bydd rhai rhannau o Llwybr Arfordir Cymru yn addas i feicwyr, i ddefnyddwyr cadair olwyn, a lle bo'n ymarferol, i farchogwyr.

Blaenord

Nesaf

Prif Fap

Bydd Llwybr Arfordir Cymru yn sicrhau gwell mynediad i'r arfordir ac yn annog pobl i fyw bywydau mwy iach ac egniol. Disgwylir i'r llwybr hefyd hybu twristiaeth a gweithgarwch economaidd mewn lleoliadau arfordirol o amgylch Cymru. Agorir Llwybr Arfordir Cymru yn swyddogol ar 5 Mai 2012, a bydd Bae Caerdydd yn un o dri lleoliad i gynnal y seremonïau agoriadol.

Yng Nghaerdydd, mae Llwybr Arfordir Cymru yn cysylltu â Llwybr Rhymni ym Mharc Tredelerch, lle mae llwybr newydd ar hyd ochr ddeheuol y parc yn cysylltu â Llwybr Arfordir Cymru i'r gorllewin (tuag at Gasnewydd drwy Gors Crychudd ar hyd y morglawdd) ac i'r dwyrain tuag at Fae Caerdydd a Bro Morgannwg.

Yng Ngerddi Rumney Hill i'r de o'r parc, mae Llwybr Rhymni wedi'i arwyddo drwy faestrefi Tredelerch tuag at yr arfordir drwy'r Parc Tredelerch, lle mae'n cysylltu â Llwybr Arfordir Cymru.

Am fwy o wybodaeth am Llwybr Arfordir Cymru, cliciwch [yma](#).

Am daflen daith gerdded Wentloog Avenue i'r arfordir, cliciwch [yma](#).

Blaenord

Nesaf

Prif Fap





CHWARAEON, ADLONIANT  
A HAMDDEN AR HYD

# LLWYBR RHYMNI

Bydd y map hwn yn eich helpu i ddod o hyd i gyfleusterau chwaraeon, adloniant a hamdden sydd ar gael ar hyd Llwybr Rhymni. O Warchodfa Natur Howardian i goetiroedd prydferth Cefn Mabli, mae rhywbeth i bawb ei fwynhau ar hyd Llwybr Rhymni Caerdydd. **Cliciwch ar yr 'eiconau' i gael gwybod mwy ...**

*Am ragor o wybodaeth ynglŷn â chyffleoedd eraill i fwynhau'r ardal o gefn gwlad sydd ar garreg eich drws, cysylltwch â Thîm Cefn Gwlad y Cyngor.*

**Ffôn:** 029 2087 3186 / 73719 / 73249

**E-bost:** [cefn gwlad@caerdydd.gov.uk](mailto:cefn gwlad@caerdydd.gov.uk)

**Gwefannau:** [www.caerdydd.gov.uk/cefn gwlad](http://www.caerdydd.gov.uk/cefn gwlad)

[www.caerdydd.gov.uk/bioamrywiaeth](http://www.caerdydd.gov.uk/bioamrywiaeth)

[www.awyragoredcaerdydd.com](http://www.awyragoredcaerdydd.com)

Prif Fap



Llanedern

Llanrhymni

Trowbridge

Tredelerch

Tremorfa